

# Aiddychmygu'r ffordd y caiff tai cymdeithasol eu hadeiladu yng Nghymru - Strategaeth Dulliau Adeiladu Modern ar gyfer Tai Cymdeithasol Cynllun gweithredu

Mater	Sut?	Byddwn yn	drwy	allbwn - mesur llwyddiant	blaenoriaeth 1-5	erbyn pryd	Dyddiad adolygu
-------	------	-----------	------	---------------------------	------------------	------------	-----------------

1 Tai cymdeithasol sydd wedi'u hadeiladu drwy ddefnyddio dulliau modern								
	Ni fydd dulliau adeiladu tai traddodiadol yn cynyddu'r cyflenwad o gartrefi fforddiadwy a chymdeithasol yn sylweddol yng Nghymru yn gyflym nac ar raddfa.	Defnyddio dulliau adeiladu modern (DAM) i gynyddu graddfa a chyflymder cyflenwi tai cymdeithasol yng Nghymru						
1.1			Ei gwneud yn ofynnol i'n holl gynlluniau tai cymdeithasol a ariennir gefnogi egwyddorion DAM a'u rhoi ar waith.	Ceisio gosod targed ar gyfer pob datblygiad tai cymdeithasol DAM a ariennir gan Lywodraeth Cymru.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mwy o gyllid ar gyfer datblygiadau DAM drwy raglenni grantiau tai Llywodraeth Cymru.</li> </ul>	1	Rhagfyr 2021	Rhagfyr 2022
1.2			Defnyddio DAM i helpu Awdurdodau Lleol i ddechrau adeiladu tai cymdeithasol ar raddfa ac yn gyflym, a cheisio sicrhau bod mwy o gartrefi cymdeithasol DAM yn cael eu cyflenwi gan Landlordiaid Cymdeithasol Preswyl.	<p>Sefydlu gweithgor DAM gydag Awdurdodau Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Preswyl i ddeall heriau cyflenwi tai cymdeithasol, a'r rhwystrau o ran DAM.</p> <p>Annog galluogwyr DAM profiadol i fentora'r rhai nad ydynt yn gyfarwydd â thechnolegau DAM neu'r rhai y mae eu capasiti datblygu yn gyfyngedig.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyflenwi mwy o gartrefi DAM.</li> <li>Sicrhau cydweithio rhwng Landlordiaid Cymdeithasol Preswyl, Awdurdodau Lleol a chynhyrchwyr DAM.</li> <li>Mentora'r rhai y mae eu galluedd datblygu yn gyfyngedig.</li> </ul>	1	Rhagfyr 2021	Rhagfyr 2022
1.3			Ystyried ffyrdd o fynd i'r afael â DAM a fydd yn arwain at gynnydd graddol tuag at gyflenwi tai DAM cyfeintiol yng Nghymru ( <a href="#">fel y'i diffinnir gan fframwaith diffiniadau Cast Consultancy Llywodraeth y DU</a> ).	<p>Cynnal ymarfer i fapio'r sefyllfa bresennol o ran cyflenwi tai cymdeithasol DAM yng Nghymru.</p> <p>Dosbarthu'r mathau o dai DAM a gyflenwir gan landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru a gweithio gyda nhw i ystyried sut y gallant gynyddu'r nifer yn raddol yn eu portffolio tai.</p> <p>Gweithio gyda chynhyrchwyr DAM yng Nghymru i ystyried sut y gallant</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Landlordiaid cymdeithasol yn 'cyfnewid' dyluniadau a chydannau safonedig o fewn datblygiadau tai.</li> <li>Mwy o gartrefi cymdeithasol yn defnyddio datrysiadau DAM mwy cyfeintiol.</li> <li>Cynhyrchwyr DAM yng Nghymru yn symud yn raddol tuag at gynhyrchu DAM cyfeintiol.</li> </ul>	2	Rhagfyr 2021	Rhagfyr 2022

# Aiddychmygu'r ffordd y caiff tai cymdeithasol eu hadeiladu yng Nghymru - Strategaeth Dulliau Adeiladu Modern ar gyfer Tai Cymdeithasol Cynllun gweithredu

Mater	Sut?	Byddwn yn	drwy	allbwn - mesur llwyddiant	blaenoriaeth 1-5	erbyn pryd	Dyddiad adolygu
			ehangu eu harlwy tuag at gyflenwi tai DAM cyfeintiol.				
1.4		Ceisio deall y cyfyngiadau o ran capasiti a wynebwr gan adeiladwyr tai cymdeithasol (a phreifat) ac ystyried a all DAM gynnig datrysiad i adeiladu tai o ansawdd gwell yn gyflymach.	Ymgysylltu â'r sector adeiladu tai BBaCh drwy'r Rhaglen Ymgysylltu ag Adeiladwyr Tai (HBEP) i ddeall yr awydd i fabwysiadu DAM fel ffordd o gyflenwi tai marchnad a chymdeithasol yng Nghymru.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau chwarae teg - normaleiddio DAM fel y datrysiad ni waeth beth fo'r ddeiliadaeth.</li> </ul>	1	Rhagfyr 2021	Rhagfyr 2022
1.5		Ceisio deall unrhyw rwystrau yn y system reoleiddio sy'n llesteirio cynnydd cyflenwi cartrefi DAM (tai cymdeithasol a marchnad). Byddwn yn edrych ar y dulliau sydd ar gael yn y fframwaith cynllunio tir presennol yng Nghymru i gynnig cyfleoedd i gyflenwi mwy o dai cymdeithasol a marchnad DAM. Mae hyn yn cynnwys polisiau cynllunio, hawliau datblygu a ganiateir a pholisiau cynllunio a rheoleiddio eraill yng Nghymru.	Ymgysylltu ag arweinwyr polisi cynllunio, rheoliadau adeiladu a SuDS Llywodraeth Cymru i drafod y rhwystrau o ran cyflenwi DAM, a chyfleoedd i hyrwyddo cyflenwi DAM drwy'r meysydd polisi hyn.  Caiff y llif gwaith hwn ei lywio gan dystiolaeth a barn timau datblygu landlordiaid cymdeithasol, HBEP a chynhyrchwyr DAM.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Newidiadau i bolisiau ehangach Llywodraeth Cymru a fydd yn cymhell cartrefi cymdeithasol a marchnad DAM.</li> <li>Llunio polisiau mewn ffordd sy'n golygu mai DAM yw'r dewis ddatrysiad er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â pholisi (e.e. safonau ynni).</li> </ul>	4	Gorffennaf 2022	Gorffennaf 2022
1.6		Ystyried ffyrdd o sicrhau bod safleoedd yn 'barod am DAM' a bod modd eu haddasu. Ystyried y defnydd o leoliadau gwag, bwlch ac enghreifftiol presennol i gyflenwi mwy o gartrefi cymdeithasol DAM.	Gweithio gyda landlordiaid cymdeithasol i fapio safleoedd segur neu safleoedd a roddwyd o'r neilltu lle ceir cyfleustodau'n barod (e.e. safleoedd mewnlenni garejys). Ceisio cymhell datblygiadau DAM i gyflenwi ar raddfa ac yn gyflym ar 'safleoedd sy'n barod i fynd'.  Ystyried rôl awdurdodau lleol a hawliau datblygu a ganiateir wrth hwyluso'r dull hwn.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyflwyno safleoedd mewnlenni enghreifftiol llai o faint ar gyfer tai cymdeithasol.</li> </ul>	4	Gorffennaf 2022	Gorffennaf 2022

# Aiddychmygu'r ffordd y caiff tai cymdeithasol eu hadeiladu yng Nghymru - Strategaeth Dulliau Adeiladu Modern ar gyfer Tai Cymdeithasol Cynllun gweithredu

Mater	Sut?	Byddwn yn	drwy	allbwn - mesur llwyddiant	blaenoriaeth 1-5	erbyn pryd	Dyddiad adolygu
			Ystyried sut y gellir cyflawni hyn drwy becynnau cyllid presennol Llywodraeth Cymru - neu drwy gynhyrchion cymorth ariannol pwrpasol newydd.				
1.7		Ystyried sut y gall daliadau tir y sector cyhoeddus chwarae rôl wrth gyflenwi tai DAM yng Nghymru	Gweithio gyda thimau Is-adran Tir, Eiddo a Thrysorlys Llywodraeth Cymru i ystyried dulliau o gynyddu tai DAM sy'n gysylltiedig â gwarediadau tir, a chefnogi'r gwaith o gyflwyno safleoedd preswyl DAM yn gynt o fewn rheolau trysorlys y llywodraeth.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mwy o gytundebau gwaredu tir y sector cyhoeddus sydd â chyfran o gartrefi DAM fel rhan o'r datblygiad.</li> </ul>	5	Medi 2022	Medi 2022
<b>2. Dyluniad DAM</b>							
Mae angen cartrefi sydd wedi'u dylunio'n dda arnom sy'n addas ar gyfer ein tenantiaid cymdeithasol, heddiw ac yfory. Mae angen model proses a chyflenwi arnom sy'n datblygu gwaith cyflenwi tai	Defnyddio gwaith dylunio a safoni i adeiladu cartrefi DAM cynaliadwy o ansawdd gwell, yn gyflymach ac yn fwy cost-effeithiol, a'u cynllunio er budd tenantiaid heddiw ac yn y dyfodol ar yr un pryd.						

# Aiddychmygu'r ffordd y caiff tai cymdeithasol eu hadeiladu yng Nghymru - Strategaeth Dulliau Adeiladu Modern ar gyfer Tai Cymdeithasol Cynllun gweithredu

Mater	Sut?	Byddwn yn	drwy	allbwn - mesur llwyddiant	blaenoriaeth 1-5	erbyn pryd	Dyddiad adolygu
cymdeithasol ar raddfa ac yn gyflym.							
2.1		Ceisio gwella ansawdd cartrefi cymdeithasol newydd sbon yng Nghymru, ar y cam adeiladu a'r cam gweithredol, drwy gyflwyno safonau i wella ansawdd a chynyddu nifer y cartrefi DAM cymdeithasol a fforddiadwy newydd yng Nghymru.	Bydd y Gofyniad Ansawdd Datblygu ar ei newydd wedd, Safon Cartrefi Hardd, yn sicrhau bod DAM yn cael ei ystyried yn ddatrysiaid cyflenwi posibl ar gyfer pob datblygiad tai cymdeithasol a ariennir gan Lywodraeth Cymru.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd gwaith craffu technegol o dan y safon yn cynyddu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer datblygiadau DAM drwy'r Grant Tai Cymdeithasol.</li> </ul>	1	Mehefin 2022	Mehefin 2022
2.2		Gwell defnydd o grant tai cymdeithasol Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer cartrefi cymdeithasol DAM.	Ystyried y cysylltiadau rhwng y cyllid sydd ar gael drwy 'fodel dichonoldeb safonol' tai cymdeithasol newydd Llywodraeth Cymru i annog cartrefi cymdeithasol o ansawdd gwell sy'n cynnig gwell gwerth am arian a sicrhau chwarae teg rhwng dulliau adeiladu traddodiadol a DAM.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mwy o ddatblygiadau DAM a mwy o werth am arian i fuddsoddiad tai Llywodraeth Cymru.</li> </ul>	1	Rhagfyr 2022	Rhagfyr 2023
2.3		Gwerthuso rôl DAM wrth ddarparu cartrefi cymdeithasol sydd wedi'u dylunio'n well ac sy'n perfformio'n well.	Mwy o waith craffu technegol o ansawdd, a monitro tai cymdeithasol a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar ôl eu cwblhau.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Casglu data ar y mathau o dai y mae Llywodraeth Cymru wedi'u hariannu yn y gorffennol.</li> <li>Mwy o waith monitro DAM yn deillio o'r broses o fonitro tai ar ôl eu cwblhau.</li> </ul>	4	Medi 2022	Medi 2023

# Aiddychmygu'r ffordd y caiff tai cymdeithasol eu hadeiladu yng Nghymru - Strategaeth Dulliau Adeiladu Modern ar gyfer Tai Cymdeithasol Cynllun gweithredu

Mater	Sut?	Byddwn yn	drwy	allbwn - mesur llwyddiant	blaenoriaeth 1-5	erbyn pryd	Dyddiad adolygu
2.4		Ystyried y broses o ddefnyddio dull llyfr patrwm a ffrâm DAM ar gyfer datblygiadau tai cymdeithasol sy'n gyson â'r safon newydd, sydd ar gael yn 'agored' gan gleientiaid tai cymdeithasol i gynyddu graddfa a chyflymder DAM ac arbedion maint gwerth am arian.	Gweithio gyda landlordiaid cymdeithasol i ddeall portffolios tai, safoni portffolios a gwneuthurwyr DAM ar gyfer eu cynhyrchion er mwyn gweld a oes unrhyw gyfatebiaeth.  Ystyried dulliau 'arloesi' posibl o ran cynhyrchion ar gyfer y darn hwn o waith.  Ymgynghori ag arbenigwyr technegol i sicrhau bod creadigrwydd a chreu lleoedd yn cael eu hystyried yn llawn wrth archwilio'r opsiynau.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gwell dealltwriaeth o ofynion landlordiaid cymdeithasol ac a yw'n briodol safoni gwaith dylunio.</li> <li>Trafod â chynhyrchwyr DAM i sicrhau eu bod mewn sefyllfa ddelfrydol i ymateb i safoni cynhyrchion a gwaith dylunio.</li> <li>Sefydlu gweithgor cyflenwi tai cymdeithasol ymhlith Awdurdodau Lleol.</li> </ul>	3	Medi 2022	Medi 2023
2.5		Ceisio ystyried barn tenantiaid am eu cartrefi, a hyrwyddo'r defnydd o bolisiâu gosod lleol ac ystyried yr hyn sy'n well gan denantiaid o ran DAM	Annog landlordiaid cymdeithasol i fabwysiadu'r arfer.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cartrefi DAM carbon isel o ansawdd uchel i denantiaid.</li> </ul>	4	Medi 2022	Medi 2023
<b>3. Perfformiad DAM</b>							
	<b>Mae'r diffyg tystiolaeth a hyder yn DAM fel model cyflenwi addas yn rhwystro cynnydd</b>	<b>Dangos a gwireddu gwell perfformiad adeiladu DAM</b>					
3.1		Ceisio bod ar flaen y gad o ran arferion gorau yn y DU a thu hwnt er mwyn dangos a mesur buddiannau tai DAM.	Ymgorffori arferion gorau a gwaith casglu tystiolaeth fel rhan o ddull y DU gyfan o weithredu DAM yn y sector tai a'r sector adeiladu.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dod yn aelodau o sefydliadau ymchwil arferion gorau o fewn y DU (e.e. AIMCH) a chael gafael ar wybodaeth a data i lywio penderfyniadau polisi Llywodraeth Cymru i ddatblygu cartrefi cymdeithasol DAM ar raddfa ac yn gyflym.</li> </ul>	1	Medi 2021	Medi 2022
3.2		Monitro perfformiad adeiladu cynlluniau DAM a ariennir drwy	Gwneud mwy o waith craffu ar bob cynllun a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar ôl ei gwblhau. Parhau i	<ul style="list-style-type: none"> <li>Defnyddio gwybodaeth a data i lywio ein penderfyniadau polisi i</li> </ul>	2	Ebrill 2022	Ebrill 2022

# Aiaddychmygu'r ffordd y caiff tai cymdeithasol eu hadeiladu yng Nghymru - Strategaeth Dulliau Adeiladu Modern ar gyfer Tai Cymdeithasol Cynllun gweithredu

Mater	Sut?	Byddwn yn	drwy	allbwn - mesur llwyddiant	blaenoriaeth 1-5	erbyn pryd	Dyddiad adolygu
		Lywodraeth Cymru a bwydo i mewn i setiau data'r DU.	ddysgu am y Rhaglen Tai Arloesol (IHP) a'i monitro.	ddatblygu cartrefi cymdeithasol DAM ar raddfa ac yn gyflym.			
3.3		Ystyried profiad 'gwirioneddol' y tenant er mwyn deall sut mae DAM yn perfformio ac mewn amser real, gan ddylanwadu ar waith dylunio DAM yn y dyfodol	Defnyddio ymchwil drwy IHP ac academia, yn ogystal ag ymgysylltu ag arolygon tenantiaid Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i gynhyrchu tystiolaeth a data i lywio penderfyniadau polisi am gyflenwi DAM.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Defnyddio gwybodaeth a data i lywio ein penderfyniadau polisi i ddatblygu cartrefi cymdeithasol DAM ar raddfa ac yn gyflym.</li> </ul>	3	Ebrill 2022	Ebrill 2023
3.4		Ceisio newid canfyddiadau o DAM i ddod yn ddewis datrysiad ar gyfer cyflenwi tai yng Nghymru	<p>Defnyddio'r arferion gorau, tystiolaeth a gwaith monitro gorau. Ymgorffori canlyniadau'r llif gwaith ariannol a sicrwydd gyda landlordiaid cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth o fuddiannau DAM, a lleddfu unrhyw bryderon am DAM.</p> <p>Dwyn ynghyd 'sail dystiolaeth DAM' a'i rhannu â landlordiaid cymdeithasol. Casglu tystiolaeth sy'n cymharu costau DAM â thechnegau adeiladu traddodiadol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Defnyddio gwybodaeth a data i lywio ein penderfyniadau polisi i ddatblygu cartrefi cymdeithasol DAM ar raddfa ac yn gyflym.</li> </ul>	1	Rhagfyr 2021	Rhagfyr 2022
<b>4. Caffael DAM</b>							
Fel arfer, mae modelau caffael yn y sector adeiladu a'r sector adeiladu tai yn annog cadw costau'n isel, yn hytrach na cheisio dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar werth uchel/costau oes gyfan. Ar hyn o bryd, ni all DAM gystadlu ar sail tebyg am debyg â dulliau adeiladu tai	Defnyddio modelau caffael priodol i gynyddu nifer y tai cymdeithasol a adeiledir gan ddefnyddio DAM						

# Aiddychmygu'r ffordd y caiff tai cymdeithasol eu hadeiladu yng Nghymru - Strategaeth Dulliau Adeiladu Modern ar gyfer Tai Cymdeithasol Cynllun gweithredu

Mater	Sut?	Byddwn yn	drwy	allbwn - mesur llwyddiant	blaenoriaeth 1-5	erbyn pryd	Dyddiad adolygu
traddodiadol sefydledig.							
4.1		Ar y cyd â landlordiaid cymdeithasol, ystyried y llwybrau caffael tai cymdeithasol presennol yng Nghymru, a'r defnydd o fodelau caffael presennol. Deall a yw'r dulliau hyn yn rhwystro cyflenwi DAM ac, ar y cyd ag arbenigwyr caffael, ystyried sut y gellir goresgyn hyn yn unol â chyfreithiau a rheolau caffael presennol.	Ymgysylltu'n uniongyrchol â landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru a sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried y rhwystrau o ran y fframwaith rheoleiddio caffael cyhoeddus presennol ac sydd ar ddod.  Cysylltu â thimau datblygu awdurdodau lleol fel rhan o waith adeiladu 'ar raddfa ac yn gyflym' awdurdodau lleol er mwyn ystyried cyfleoedd i gydweithio tuag at fwy o ddatblygiadau DAM.  Comisiynu cyngor a barn arbenigol ym maes caffael ynghylch y llwybrau caffael gorau i wella manyleb DAM a chyflenwi mwy o dai DAM. Ymgynghori â thîm Caffael Masnachol Llywodraeth Cymru am arweiniad ac opsiynau o ran arferion gorau.  Ystyried dull caffael safonol i ategu gwaith dylunio a manyleb safonedig.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ystyried a gweithredu modelau caffael newydd a diwygiedig a fydd yn arwain at gyflenwi mwy o gartrefi cymdeithasol drwy DAM.</li> <li>• Canllawiau caffael sydd wedi'u teilwra i hyrwyddo manyleb a gwaith dylunio DAM.</li> <li>• Cysondeb â'r fframwaith Themâu, Canlyniadau a Mesurau</li> </ul>	2	Rhagfyr 2021	Rhagfyr 2022
4.2		Ystyried y defnydd o fodelau caffael i adlewyrchu agweddau cost a budd oes gyfan DAM - yn arbennig y dull cyfanswm gwariant gwerth uchel yn hytrach na dull gwariant cyfalaf cost	Gweithio gyda landlordiaid cymdeithasol i ddeall y dull costau oes gyfan mewn perthynas ag eiddo a gaiff ei rentu a thenantiaethau.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwaith darn o dystiolaeth gorchwyl a gorffen i adolygu costau oes gyfan adeiladu a thenantiaeth o gymharu â gwaith adeiladu DAM. O fewn fframwaith presennol rheoleiddio caffael,</li> </ul>	2	Mehefin 2022	Mehefin 2023

# Aiddychmygu'r ffordd y caiff tai cymdeithasol eu hadeiladu yng Nghymru - Strategaeth Dulliau Adeiladu Modern ar gyfer Tai Cymdeithasol Cynllun gweithredu

Mater	Sut?	Byddwn yn	drwy	allbwn - mesur llwyddiant	blaenoriaeth 1-5	erbyn pryd	Dyddiad adolygu
		isel ymlaen llaw a chost cynnal a chadw uchel.	Comisiynu cyngor a barn arbenigol ym maes caffael ynghylch y llwybrau caffael gorau i wella manyleb DAM a chyflenwi mwy o dai DAM mewn perthynas â chyfanswm gwariant.  Defnyddio pecyn cymorth gwerth am arian yr Hwb Arloesi ym maes Adeiladu (CIH) i brofi'r dull hwn o gyflenwi tai cymdeithasol yng Nghymru.	ystyried newidiadau i ddulliau caffael i roi cyfrif am unrhyw gost a budd.  • Cysondeb â'r fframwaith Themâu, Canlyniadau a Mesurau.			
4.3		Ystyried sut y gall archebion DAM sydd yn yr arfaeth ar gyfer cyflenwi tai cymdeithasol sicrhau cynifer o fuddiannau â phosibl i fusnesau DAM yng Nghymru a'u cadwyni cyflenwi. Edrych ar fodelau caffael presennol landlordiaid cymdeithasol i sicrhau eu bod, lle y bo hawl iddynt wneud hynny, yn cefnogi busnesau Cymreig ac yn ymgorffori mentrau arferion da, fel taliadau prydlon a gweithdrefnau da o fewn cadwyni cyflenwi rhwng y cyflenwr DAM, y prif gontractwyr a'r landlord cymdeithasol. Ceisio llwybrau caffael sy'n manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi ar gyfer ein cadwyni cyflenwi cynhenid yng Nghymru, yn arbennig y defnydd o gyflenwadau dur a phren o Gymru. Gallai hyn gynnwys dulliau fel Gwneud Ceisiadau ar y Cyd ac ymgysylltu â chadwyn gyflenwi DAM i uwchsgilio er mwyn ymateb.	Ymgysylltu'n uniongyrchol â landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru a monitro'r sefyllfa bresennol gyda'r nod o rannu arferion gorau ymhlith arweinwyr caffael landlordiaid cymdeithasol.  Ceisio integreiddio cymalau buddiannau i'r gymuned a Themâu, Canlyniadau a Mesurau mewn contractau caffael, ac ystyried eu rhoi ar waith drwy gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer tai cymdeithasol.  Ystyried y gallu i gyflwyno tybiaeth o ran polisi mai pren o Gymru a ddefnyddir ym mhob cynllun tai rydym yn ei gefnogi. Ystyried cyflwyno nodyn cyngor caffael penodol.	• Cymalau buddiannau i'r gymuned a Themâu, Canlyniadau a Mesurau mewn modelau caffael safonol sy'n cefnogi busnesau Cymreig, gan gynnwys cyfarwyddyd polisi caffael ar y defnydd o ddeunyddiau lleol fel Dur a Phren o Gymru.  • Cysondeb â'r fframwaith Themâu, Canlyniadau a Mesurau.	2	Mehefin 2022	Mehefin 2023



# Aiddychmygu'r ffordd y caiff tai cymdeithasol eu hadeiladu yng Nghymru - Strategaeth Dulliau Adeiladu Modern ar gyfer Tai Cymdeithasol Cynllun gweithredu

Mater	Sut?	Byddwn yn	drwy	allbwn - mesur llwyddiant	blaenoriaeth 1-5	erbyn pryd	Dyddiad adolygu
4.4		Ystyried sut y gall landlordiaid cymdeithasol gydweithio ar archebion tai cymdeithasol DAM sydd yn yr arfaeth, gan sicrhau cynifer o arbedion maint â phosibl i greu gwerth am arian i'r cyhoedd.	Ymchwilio i'r modd y gall landlordiaid cymdeithasol, yn enwedig awdurdodau lleol, gydweithio i sefydlu fframwaith caffael ar gyfer cyflenwi DAM.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Fframwaith DAM Cymru - naill ai ar gyfer cydweithio rhwng Awdurdodau Lleol a 'chlwb prynwyr' neu fframwaith mynediad agored (yn unol â'r fframwaith rheoleiddio caffael presennol) fel ei bod hi'n haws caffael DAM a sicrhau buddiannau uniongyrchol i'n cadwyn gyflenwi Gymreig.</li> <li>Cysondeb â'r fframwaith Themâu, Canlyniadau a Mesurau.</li> </ul>	1	Medi 2021	Medi 2022
4.5		Ystyried sut y gall y gwaith o gaffael DAM mewn tai cymdeithasol gyfrannu at enillion cymdeithasol ac economaidd ehangach Llywodraeth Cymru – e.e. drwy'r bil partneriaeth gymdeithasol a Themâu, Canlyniadau a Mesurau.	Cyfrannu at weithgor trawslywodraethol mewnol i sicrhau bod polisiau Llywodraeth Cymru yn gyson â'r strategaeth DAM i sicrhau cynifer o enillion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd â phosibl, gan gysylltu â mentrau'r economi sylfaenol, gwell swyddi yn agosach i gartref a thasglu'r cymoedd. Gweithio gyda landlordiaid cymdeithasol i sicrhau bod enillion yn y maes hwn yn cael eu mesur a'u cofnodi'n briodol.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mwy o waith cyflawni polisi trawslywodraethol integredig lle bydd DAM yn rhan o bolisiau nad ydynt yn gysylltiedig â thai - gan gynnwys creu swyddi â mwy o ffocws a buddsoddi mewn DAM mewn cymunedau difreintiedig.</li> <li>Cysondeb â'r fframwaith Themâu, Canlyniadau a Mesurau.</li> </ul>	1	May 2021	May 2022
4.6		Ceisio ariannu a chaffael cartrefi cymdeithasol mewn ffordd sy'n cynnig sicrwydd o ran archebion sydd yn yr arfaeth i gynhyrchwyr DAM BBaCh yng Nghymru fuddsoddi yn eu gweithrediadau a chynnal gweithlu medrus a chyfleoedd gwaith	Gweithio gyda'r tîm cyllid tai i edrych ar gylchoedd GTC sy'n hwy na blwyddyn. Ceisio llunio adroddiad gorchwyl a gorffen ar flaenarchebion sydd yn yr arfaeth ac yn unol â'r CDRh am y 5 mlynedd nesaf er mwyn galluogi cynhyrchwyr DAM i flaengynllunio a buddsoddi i gynyddu cyfraddau cynhyrchu.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Adroddiad gorchwyl a gorffen ar flaenarchebion sydd yn yr arfaeth ac yn unol â'r CDRh am y 5 mlynedd nesaf Diwygio gweithdrefnau Llywodraeth Cymru i ddyrannu'r grant tai cymdeithasol.</li> <li>Gwneud mwy o ddefnydd o Hysbysiadau Gwybodaeth Ymlaen Llaw ar gyfer sefydliadau prynu.</li> </ul>	1	Medi 2021	Medi 2022

# Aiddychmygu'r ffordd y caiff tai cymdeithasol eu hadeiladu yng Nghymru - Strategaeth Dulliau Adeiladu Modern ar gyfer Tai Cymdeithasol Cynllun gweithredu

Mater	Sut?	Byddwn yn	drwy	allbwn - mesur llwyddiant	blaenoriaeth 1-5	erbyn pryd	Dyddiad adolygu
-------	------	-----------	------	---------------------------	------------------	------------	-----------------

5. Cyllid ac achrediadau DAM								
	Ystyrir bod DAM yn fodel cyflenwi arloesol a newydd o hyd	Ennyn hyder yn DAM fel datrysiad i adeiladu gwell cartrefi cymdeithasol a marchnad yng Nghymru						
5.1			Ceisio hyrwyddo mabwysiadu cylchoedd sicrwydd, gwarantiadau a phrosesau achredu safonedig er mwyn ennyn hyder benthycwyr a thrydydd partïon yn DAM. Ystyried y defnydd o lwyfan asesu technegol unedig ar gyfer DAM.	Cydgysylltu camau gweithredu â grŵp sicrwydd DAM a arweinir gan Lywodraeth y DU. Cysoni gwaith ar gynlluniau sicrwydd cenedlaethol (fel cynllun <i>NHBC Accepts</i> Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai).	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gwell manyleb DAM a mwy o hyder mewn datrysiadau DAM.</li> </ul>	2	Medi 2021	Medi 2022
5.2			Meithrin cydberthnasau â chynhyrchwyr DAM yng Nghymru er mwyn sicrhau eu bod yn cael cefnogaeth i gael yr achrediadau angenrheidiol fel bod modd i'w cynnyrch gael ei ddefnyddio ar raddfa, gan arallgyfeirio ac arloesi tuag at well cynhyrchion cyfeintiol.	Ystyried cyfleoedd i roi mentrau busnes ac arloesi ar waith er mwyn galluogi cwmnïau i ennill achrediadau.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynnig mwy o gyfleoedd i fusnesau gael cymorth busnes ac arloesi ar gyfer cynhyrchwyr DAM yng Nghymru.</li> </ul>	3	Mawrth 2022	Mawrth 2023
5.3			Gweithio gyda ffederasiynau adeiladu a thai presennol i ystyried datrysiadau DAM ar gyfer cyflenwi cartrefi cymdeithasol a marchnad.	Meithrin cydberthnasau â Rhaglen Ymgysylltu ag Adeiladwyr Tai Llywodraeth Cymru i ddeall gwaith yn y maes hwn, a'r rhwystrau i'w gyflawni.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyflenwi mwy o gartrefi marchnad DAM a sicrhau mwy o fuddiannau i'r gymuned yn y gadwyn gyflenwi adeiladu sy'n gyson â'r Themâu, Canlyniadau a Mesurau.</li> </ul>	2	Mawrth 2022	Mawrth 2023
5.4			Ystyried cyfleoedd yng nghynlluniau cymorth ariannol presennol Llywodraeth Cymru, fel Cymorth i Brynu, Hunanadeiladu a Safleoedd Segur, i ddeall sut y gellir adeiladu cartrefi mwy fforddiadwy/marchnad gan ddefnyddio DAM yng Nghymru	Cysylltu â Banc Datblygu Cymru i ystyried a ellir defnyddio dulliau cymorth ariannol presennol adeiladu tai ac eiddo i gynyddu DAM yn raddol mewn cartrefi marchnad, ac ennyn hyder yn y sector.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Adeiladu mwy o gartrefi gan ddefnyddio DAM</li> </ul>	3	Medi 2021	Medi 2022
5.5			Ystyried cyfleoedd i fenthycu arian er mwyn ei gwneud hi'n haws i gael gafael ar gyllid ar gyfer datblygiadau	Meithrin cydberthnasau ag UK Finance a hefyd Fanc Datblygu Cymru er mwyn ystyried cynhyrchion cyllid pwrpasol ar gyfer	<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu pecyn cyllid pwrpasol ar gyfer DAM os yw'n briodol.</li> </ul>	3	Medi 2021	Medi 2022

# Ailddychmygu'r ffordd y caiff tai cymdeithasol eu hadeiladu yng Nghymru - Strategaeth Dulliau Adeiladu Modern ar gyfer Tai Cymdeithasol Cynllun gweithredu

Mater	Sut?	Byddwn yn	drwy	allbwn - mesur llwyddiant	blaenoriaeth 1-5	erbyn pryd	Dyddiad adolygu
		DAM (ar gyfer cartrefi cymdeithasol a marchnad).	cyflenwi tai cymdeithasol a marchnad DAM.				
<b>6. Sgiliau DAM</b>							
	Mae adeiladu cartrefi yn dibynnu ar weithlu medrus i gyflenwi'r cartrefi cymdeithasol sydd eu hangen arnom. Mae'r DU yn wynebu argyfwng o ran sgiliau adeiladu - gall DAM helpu i ddatrys y broblem hon.	Sicrhau bod gweithlu Cymru yn cael budd o fwy o ddefnydd o DAM mewn tai cymdeithasol, ac yn ei gefnogi.					
6.1		Nodi'r hyn sy'n ofynnol o ran sgiliau a chymwysterau DAM i gefnogi mwy o ddefnydd o DAM a sicrhau bod ein cadwyn gyflenwi gynhenid yn cynnwys y sgiliau priodol.	Gweithio gyda chydweithwyr sgiliau Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru, y Diwydiant Adeiladu a thair Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol Cymru i gynnal ymarfer gorchwyl a gorffen i fapio darpariaeth bresennol addysg uwch ac addysg bellach yng Nghymru, nodi bylchau mewn darpariaeth a gwneud argymhellion ar gyfer anghenion hyfforddi yn y dyfodol.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ymarfer mapio i adolygu darpariaeth sgiliau bresennol DAM.</li> <li>Cyrsiau newydd ac ychwanegol i ategu gwaith adeiladu DAM a gwaith adeiladu nad yw'n draddodiadol.</li> </ul>	3	Mawrth 2022	Mawrth 2023
6.2		Defnyddio DAM i wella'r canfyddiad o adeiladu, a hyrwyddo gweithlu cynhwysol ac amrywiol newydd i uwchsgilio at y dyfodol; amrywio'r gweithlu adeiladu a denu newydd-ddyfodiaid i'r sector yng Nghymru.	Gweithio gyda CITB a ffederasiynau adeiladu a thai i hyrwyddo'r mathau newydd o yrfaedd DAM mewn adeiladu i'r genhedlaeth nesaf.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyflwyno cyfleoedd cyflogaeth DAM i fwy o unigolion medrus</li> <li>Arallgyfeirio sgiliau o'r rhai traddodiadol i ddilyn llwybr mwy arloesol a newydd ar gyfer gweithlu medrus DAM.</li> </ul>	3	Mawrth 2022	Mawrth 2023

# Aiaddychmygu'r ffordd y caiff tai cymdeithasol eu hadeiladu yng Nghymru - Strategaeth Dulliau Adeiladu Modern ar gyfer Tai Cymdeithasol Cynllun gweithredu

Mater	Sut?	Byddwn yn	drwy	allbwn - mesur llwyddiant	blaenoriaeth 1-5	erbyn pryd	Dyddiad adolygu
<b>7. Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol DAM</b>							
Mae DAM yn cynnig cyfle i wneud cyfraniad cadarnhaol at nodau llesiant Cymru.	Sicrhau bod DAM yn cyfrannu at uchelgeisiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Llywodraeth Cymru, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.						
7.1		Gweithio gyda gwneuthurwyr DAM yng Nghymru i sicrhau eu bod yn cael cefnogaeth i dyfu eu busnesau i ateb y galw am gartrefi DAM yng Nghymru a thu hwnt, a chreu cyfleoedd i fusnesau a'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru achub arnynt.	Cysoni gweithgareddau â 'Ffyniant i Bawb: y Cynllun Gweithredu ar yr Economi', a chymorth busnes Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau bod busnesau DAM yn gallu cael gafael ar gymorth.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Canolbwyntio ar DAM fel rhan o strategaeth economaidd Llywodraeth Cymru ar gyfer ffyniant gwyrdd.</li> <li>Cysoni DAM â menter adferiad gwyrdd a arweinir gan dai Llywodraeth Cymru.</li> </ul>	1	Medi 2021	Medi 2022
7.2		Defnyddio DAM fel sbardun i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi ar gyfer ein cadwyni cyflenwi cynhenid yng Nghymru, yn arbennig y defnydd o gyflenwadau dur a phren o Gymru.	Cysoni gweithgareddau â 'Ffyniant i Bawb: y Cynllun Gweithredu ar yr Economi', a chymorth busnes Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau bod busnesau DAM yn gallu cael gafael ar gymorth.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Canolbwyntio ar DAM fel rhan o strategaeth economaidd Llywodraeth Cymru ar gyfer ffyniant gwyrdd.</li> <li>Cysoni DAM â menter adferiad gwyrdd a arweinir gan dai Llywodraeth Cymru.</li> </ul>	1	Medi 2021	Medi 2022
7.3		Defnyddio DAM fel sbardun ar gyfer marchnad gwerth uchel ar gyfer coed a dyfir ac a brosesir yng Nghymru a bod yn sbardun allweddol ar gyfer ehangu coedwigoedd yng Nghymru.	Gweithio gyda pholisi Coedwigaeth a Wood Knowledge Wales i hyrwyddo'r defnydd o bren mewn gwaith adeiladu a DAM.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Canolbwyntio ar DAM fel rhan o strategaeth economaidd Llywodraeth Cymru ar gyfer ffyniant gwyrdd.</li> <li>Cefnogi sector pren Cymru i weld cynnydd yng ngwerth pren fel deunydd crai.</li> </ul>	3	Mawrth 2022	Mawrth 2023

# Aiddychmygu'r ffordd y caiff tai cymdeithasol eu hadeiladu yng Nghymru - Strategaeth Dulliau Adeiladu Modern ar gyfer Tai Cymdeithasol Cynllun gweithredu

Mater	Sut?	Byddwn yn	drwy	allbwn - mesur llwyddiant	blaenoriaeth 1-5	erbyn pryd	Dyddiad adolygu
				<ul style="list-style-type: none"> <li>Mwy o ddefnydd o ddatrysiadau pren DAM gan ddefnyddio pren o Gymru.</li> </ul>			
7.4		Defnyddio DAM fel sbardun i gyflawni targedau Llywodraeth Cymru ar leihau gwastraff a rhwymedigaethau o dan bolisi economi gylchol Mwy nag Ailgylchu Llywodraeth Cymru drwy flaenoriaethu'r defnydd o bren a chynnwys wedi'i ailgylchu, yn ogystal â blaenoriaethu cynnwys wedi'i aildefnyddio a'i ailgynhyrchu yn y nwyddau a brynir gan y sector cyhoeddus. Ystyried sut y gall rheolau caffael gynnig cyfleoedd i gyflenwi cynhyrchion carbon isel o Gymru.	Gweithio gyda WRAP i gasglu tystiolaeth o blaid DAM. Sicrhau bod y safon tai cymdeithasol newydd, Cartrefi a Mannau Hardd, yn gyson ag egwyddorion yr economi gylchol. Ceisio sicrhau bod yr holl dai cymdeithasol rydym yn eu hariannu yn ymgorffori o leiaf 10% o gynnwys wedi'i ailgylchu yn y gwaith adeiladu. Lle y bo'n briodol, defnyddio pren wedi'i ailgylchu a chynhyrchion sy'n cynnwys lefel uchel o goed wedi'u hailgylchu.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyfrannu at dargedau polisi gwastraff Llywodraeth Cymru a thargedau 10% o gynnwys wedi'i ailgylchu.</li> </ul>	3	Rhagfyr 2021	Rhagfyr 2022
7.5		Defnyddio DAM fel ffordd o gyflawni argymhellion nodau'r Grŵp Cyngori ar Ddatgarboneiddio a chyflenwi cartrefi sydd bron yn ddi-garbon.	Ystyried sut mae strategaeth DAM yn cysylltu â gwaith y grŵp a'r cylch presennol o ailwampio rheoliadau adeiladu.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod cartrefi DAM yn cynnig y datrysiad i gyflenwi tai sydd bron yn ddi-garbon.</li> </ul>	3	Rhagfyr 2021	Rhagfyr 2022